Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Gareth Chapman
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Ionawr 2016

Annwyl Mr Chapman

**Ymweliad Monitro gan Estyn 30 Tachwedd – 4 Rhagfyr 2015**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhachwedd 2012, nodwyd bod angen mesurau arbennig ar yr awdurdod.

Cytunwyd ar gynllun ar gyfer ymweliadau dilynol gyda'ch arolygwyr cyswllt o Estyn, a chynhaliwyd ymweliadau monitro gan dimau o arolygwyr ym mis Chwefror a mis Tachwedd 2014. Cynhaliwyd y trydydd ymweliad monitro, a'r olaf, rhwng 30 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2015. Arweiniodd Iwan Roberts AEM dîm o bum arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn pob un o'r wyth argymhelliad yn deillio o'r arolygiad.

Yn ystod yr ymweliad monitro, cynhaliodd y tîm arolygu drafodaethau â chadeirydd Bwrdd Adfer Llywodraeth Cymru ('y bwrdd adfer'), arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet ar gyfer addysg, cadeirydd craffu ac aelodau etholedig eraill, y prif weithredwr, uwch swyddogion o'r awdurdod a'i bartneriaid, grwpiau ffocws penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion. Craffodd arolygwyr ar ddogfennau gan yr awdurdod lleol hefyd, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrthych chi fel y prif weithredwr, arweinydd y cyngor, cadeirydd y bwrdd adfer, y prif swyddog addysg, cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ac uwch swyddogion eraill yr awdurdod. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi deilliannau'r ymweliad hwnnw.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion a gododd o'r arolygiad yn Nhachwedd 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen mesurau arbennig ar yr awdurdod mwyach, ac mae'n ei dynnu o unrhyw gategori gweithgarwch dilynol.

**Cefndir**

Yn dilyn adroddiad Estyn yn 2012, tynnodd y Gweinidog Addysg y pwerau am addysg oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ac ym Mehefin 2013, sefydlodd fwrdd adfer.

Er mwyn cyflymu gwelliant, a thrwy ymgynghori â'r Cyngor, dirprwyodd y bwrdd adfer y pwerau dros addysg o ddydd i ddydd yn ôl i'r Cabinet a swyddogion. Galluogodd hyn i'r bwrdd adfer ganolbwyntio ar ei rôl yn herio a chefnogi'r awdurdod, yn ogystal â monitro cynnydd yn erbyn yr wyth argymhelliad o'r arolygiad yn 2012.

Yn ystod cyfnod o newid sylweddol o ran uwch reolwyr o fewn y gwasanaeth addysg, gweithredodd yr awdurdod yn gyflym a phendant i gynllunio ar gyfer gwella. Lluniodd gynllun gweithredu ôl-arolygiad manwl a phriodol a oedd yn cynnwys camau cynyddol clir i gyflawni'r gwelliant roedd ei angen. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan aelodau etholedig, y prif weithredwr a chyfarwyddwyr corfforaethol. Fe'i cytunwyd gyda'r bwrdd adfer. O gyfnod cynnar, cydnabu pawb fod angen diwygiad sylfaenol ar arferion gweithio'r awdurdod er mwyn cael gwared ar y rhwystrau rhag gwneud cynnydd a gwella cynllunio a rheoli perfformiad. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol gyda'r bwrdd adfer i sicrhau cynnydd cryf ar y cyfan ar draws ei wasanaethau addysg.

**Argymhelliad 1: Sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, a dadansoddi a defnyddio data perfformiad i nodi a mynd i'r afael â thanberfformiad**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2012, mae'r awdurdod wedi sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ar draws y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae deilliannau wedi'u seilio ar asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi gwella'n llawer cyflymach nag yng Nghymru gyfan. O ganlyniad, yn 2015, mae perfformiad cyffredinol ar ddiwedd pob cyfnod yn llawer agosach at y cyfraddau cyfartalog yng Nghymru nag oeddent adeg yr arolygiad gwreiddiol. Yn ychwanegol, mae perfformiad ysgolion yr awdurdod yn well na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, sydd eto yn welliant o adeg yr arolygiad gwreiddiol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfradd y gwelliant ym mhob un o'r prif ddangosyddion wedi bod llawer cyflymach na chyfradd y gwelliant ledled Cymru, er bod hynny o lefel isel. Yn 2015, mae perfformiad cyffredinol ar gyfer trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, ychydig uwchlaw meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn welliant nodedig o Dachwedd 2012 pan oedd perfformiad yn y mesur hwn ymhell islaw'r meincnod. Yn ychwanegol, yn 2015, roedd perfformiad ar gyfer y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn yr awdurdod ymhell uwchlaw meincnod Llywodraeth Cymru.

Mae perfformiad ysgolion uwchradd yr awdurdod, o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, wedi gwella ar draws pob dangosydd.

Mae'r cynnydd a wna disgyblion o'r ysgol gynradd hyd ddiwedd yr ysgol uwchradd wedi gwella'n gryf ers yr arolygiad craidd. Yn 2015, mae cynnydd disgyblion gryn dipyn yn well na'r disgwyl o gymharu â disgyblion tebyg yng Nghymru ar draws yr holl brif ddangosyddion.

Er 2012, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella. Yn 2015, mae perfformiad gan y grŵp hwn o ddisgyblion yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer y disgyblion hyn yng Nghymru. Mae hyn yn welliant sylweddol o 2012 pan oedd cyrhaeddiad gan y disgyblion hyn hanner cyfradd cyrhaeddiad disgyblion tebyg yng Nghymru. Hefyd, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n gryf yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Yn 2015, ar gyfartaledd, mae'r disgyblion hyn bellach yn ennill bron i dair gradd C mewn TGAU neu gymwysterau cyfwerth yn fwy na'r hyn a enillwyd gan ddisgyblion tebyg yn 2012.

Er 2012, mae perfformiad merched a bechgyn wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae cyfradd y cynnydd gan ferched wedi bod yn llawer cryfach na chyfradd cynnydd bechgyn. Yn 2015, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, dros dair gwaith yn fwy na'r gwahaniaeth yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw perfformiad gwan bechgyn mewn Saesneg a mathemateg. Mewn cyferbyniad, mae perfformiad bechgyn yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn llawer cryfach.

Mae perfformiad disgyblion mwy abl wedi gwella rhywfaint, ond mae'n parhau i fod islaw'r cyfartaledd pan gaiff ysgolion eu cymharu ag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod yn defnyddio ac yn dadansoddi data perfformiad yn fwy effeithiol. Mae swyddogion yn defnyddio data yn dda i osod targedau uchelgeisiol, blaenoriaethu gwaith a monitro perfformiad ysgolion ac agweddau pwysig eraill, fel medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai agweddau, nid yw arfarniad yr awdurdod o ddata perfformiad yn amlygu meysydd pwysig i'w gwella yn ddigonol, fel perfformiad bechgyn mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 2: Cryfhau lefel yr her i ysgolion, a defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Er 2012, mae'r awdurdod wedi cyflwyno systemau da i gryfhau lefel yr her i'w ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad yn ofalus ar lefel ysgol ac awdurdod, a defnyddio pwerau statudol yn effeithiol i herio arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion hynny y mae eu perfformiad yn destun pryder.

Mae partneriaeth gref rhwng yr awdurdod a'i gonsortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, sef Consortiwm Canol De Cymru, yn helpu i ddarparu model clir o gymorth

a her i ysgolion, sy'n gymesur â lefel eu hangen. Mae cyfarfodydd adolygu blynyddol i gategoreiddio ysgolion yn defnyddio'r model cenedlaethol ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddata perfformiad disgyblion ac ystod o wybodaeth briodol arall. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i asesu gallu arweinwyr a rheolwyr ysgol i ysgogi gwelliannau cytûn ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, caiff bron pob ysgol ei chategoreiddio'n gywir, a'i chefnogi'n gymesur. Mae adolygiadau partneriaeth bob tymor neu bob hanner tymor o ysgolion lle mae perfformiad yn destun pryder yn ystyried ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu, er mwyn barnu cynnydd yn fwy cywir yn erbyn blaenoriaethau cytûn.

Mae uwch swyddogion yn monitro gwaith ymgynghorwyr her ac ansawdd eu hadroddiadau yn agos. Mae hyn yn sicrhau lefelau da o gysondeb a her yn y rhan fwyaf o ysgolion ar draws yr awdurdod. Mae'r trefniadau monitro yn effeithiol o ran helpu'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella a chanolbwyntio ar eu gwaith ar godi safonau mewn meysydd penodol o fewn graddfeydd amser cytûn. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, mae deilliannau arolygu yn dangos nad yw effaith y monitro ar gynnydd mor effeithiol bob amser.

Mae'r consortiwm rhanbarthol, ar ran yr awdurdod, yn darparu ystod eang o hyfforddiant o ansawdd da ar gyfer arweinwyr canol ac uwch arweinwyr mewn ysgolion. Mae arweiniad a hyfforddiant defnyddiol ar hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ysgolion effeithiol yn helpu llawer o uwch arweinwyr i osod targedau tra chywir a mesuradwy ar gyfer gwella. Mae adolygiadau cymheiriaid rhwng ysgolion sy'n perfformio'n well yn datblygu'n dda. Mae'r mentrau hyn yn dechrau meithrin gallu ysgolion i asesu eu perfformiad yn fwy cywir, naill ai'n annibynnol neu gyda chymorth da gan uwch swyddogion ac ymgynghorwyr her o'r consortiwm rhanbarthol. Mae datblygu gweithio o ysgol i ysgol i rannu arfer dda yn cyfrannu at wella safonau mathemateg mewn llawer o ysgolion. Mae'r awdurdod yn cefnogi lefel uchel o gyfranogiad mewn rhaglenni cenedlaethol i rannu arfer dda a rhagorol mewn addysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn llawer o ysgolion.

Mae'r awdurdod yn defnyddio'i bwerau statudol yn dda i herio tanberfformiad. Mae defnydd amserol o hysbysiadau rhybudd anffurfiol a chynlluniau adfer wedi sicrhau perfformiad gwell bron ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd lle roedd safonau yn destun pryder. Yn yr ysgolion prin lle nad yw'r rhybuddion anffurfiol hyn wedi arwain at welliannau, mae swyddogion yn cyflwyno hysbysiadau rhybudd ffurfiol o welliant. Yn yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio fwyaf, mae'r mesurau hyn yn allweddol o ran gwella perfformiad. Pan fydd perfformiad gwael yn parhau i fod yn destun pryder, mae gan yr awdurdod drefniadau priodol i godi lefel yr her. Mae'r system wedi llwyddo i leihau nifer yr ysgolion a osodwyd mewn categorïau statudol yn dilyn arolygiad. Er 2012, un ysgol gynradd yn unig sydd wedi bod angen gwelliant sylweddol ac nid oes unrhyw ysgolion yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

Mae llawer o gyrff llywodraethol yn gwella'u medrau i ddwyn ysgolion i gyfrif am eu perfformiad trwy ddealltwriaeth well o ddata perfformiad. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn dechrau defnyddio data yn dda i sicrhau trefniadau rheoli perfformiad mwy trylwyr ar gyfer penaethiaid. Mae gan lawer o lywodraethwyr ar is-bwyllgorau safonau ddealltwriaeth glir o'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio

ysgolion, ac maent yn cymhwyso eu gwybodaeth yn dda wrth gymryd rhan yn adolygiad perfformiad blynyddol eu hysgol.

Mae mentrau i wella llythrennedd a rhifedd, yn enwedig medrau sylfaenol mewn darllen a mathemateg, yn datblygu'n briodol.  Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae systemau i ddadansoddi effeithiolrwydd ymyriadau teilwredig ar draws yr awdurdod.

**Argymhelliad 3:  Llunio a chymhwyso strategaethau gwell i leihau nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac adeiladu ar strategaethau presennol i leihau'r nifer sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol a gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn 2012, barnodd Estyn fod diffyg strategaeth gyffredinol wedi cyfyngu cynnydd Merthyr o ran lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) ac roedd y ffigur hwn yn parhau i fod yn rhy uchel.  Ers hynny, mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu'r argymhelliad hwn yn briodol, ac mae wedi gwella'i ffocws ar leihau nifer y bobl ifanc NACH.

At ei gilydd, ar gyfer y cyfnod 2012-2014, mae canran disgyblion NACH ym Mlwyddyn 11 lai na hanner yr hyn ydoedd.  Mae gan yr awdurdod systemau olrhain effeithiol iawn ar waith, ac mae data nas gwiriwyd yn dangos bod canran y disgyblion NACH ym Mlwyddyn 11 wedi lleihau hyd yn oed ymhellach yn 2015.

Mae'r grŵp llywio NACH amlasiantaethol yn parhau i roi'r strategaeth NACH ar waith yn systematig.  Mae'r grŵp yn adolygu ei waith yn rheolaidd, ac mae wedi nodi blaenoriaethau addas ar gyfer gweithredu.  Yn ychwanegol, mae cydlynydd NACH yn gweithio'n agos ag ysgolion i nodi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio.  Mae'r awdurdod wedi cysylltu'n dda ag awdurdodau eraill i ddatblygu proffil asesu agoredrwydd i niwed, sy'n cyfrannu'n effeithiol at y broses hon ac yn helpu i dargedu adnoddau at y rheiny sydd eu hangen fwyaf.  Caiff gweithwyr arweiniol eu neilltuo ar gyfer disgyblion sydd fwyaf mewn perygl o roi'r gorau i'w haddysg.  Maent yn darparu arweiniad priodol i ddisgyblion ac yn eu mentora'n dda, gan gynnwys trwy gyfnod gwyliau'r haf.

Caiff gweithredu'r strategaeth NACH ei fonitro'n dda ar bob lefel o fewn yr awdurdod. Er enghraifft, mae'r pwyllgor craffu yn parhau i herio datblygiadau o fewn y strategaeth yn drylwyr.

Yn 2012, barnodd Estyn fod cyfraddau gwaharddiadau yn rhy uchel a bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn annerbyniol o isel.  Ers hynny, mae'r awdurdod wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â phartneriaid yn y consortiwm ac ysgolion i ddarparu gweledigaeth strategol glir i wella presenoldeb a gwaharddiadau fel ei gilydd.  Mae hyn yn cynnwys darparu arweiniad defnyddiol i ysgolion, sy'n amlinellu disgwyliadau'r awdurdod ohonynt a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Mae strategaethau presenoldeb a gwaharddiadau'r awdurdod yn darparu gweledigaeth gyffredinol, eang ar gyfer gwella ac yn amlinellu'r dulliau y dylai'r awdurdod a'r ysgolion eu defnyddio.

Mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol o ysgolion ym Merthyr wedi bod yn isel yn hanesyddol, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir.  Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o 6 diwrnod neu fwy wedi lleihau yn sylweddol.  Mae cyfradd y gwaharddiadau o 5 diwrnod neu lai yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae perfformiad yr awdurdod yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o ran y mesur hwn.

Mae pob ysgol wedi mabwysiadu dull priodol a systematig o reoli presenoldeb. Mae'r awdurdod yn darparu ystadegau presenoldeb misol ar gyfer ysgolion, ac mae penaethiaid yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â phresenoldeb yn eu hysgolion.  Caiff swyddogion cynhwysiant addysg eu cynnwys mewn cyfarfodydd bugeiliol mewn ysgolion yn rheolaidd.  Maent yn darparu dadansoddiad o ddata perfformiad presenoldeb ysgolion ac yn adrodd wrth gyrff llywodraethol.  Mae'r awdurdod yn parhau i ddatblygu'r defnydd o ddata presenoldeb gydag ymgynghorwyr her y consortiwm rhanbarthol, a chynhelir trafodaethau buddiol rhwng ymgynghorwyr her a phenaethiaid.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella ar y cyfan ers yr arolygiad yn 2012 ac mae tua hanner yr ysgolion wedi gwella'u cyfraddau presenoldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y cyfnod hwn.  Fodd bynnag, o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, mae tri chwarter o ysgolion cynradd yn parhau i fod yn y 50% is ar gyfer presenoldeb.  Yn ystod 2014–2015, yr awdurdod oedd â'r gyfradd isaf yng Nghymru o ran presenoldeb yn y sector cynradd.

At ei gilydd, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella ers yr arolygiad yn 2012.  Fodd bynnag, o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, mae tair o'r pedair ysgol uwchradd yn y 50% is.

**Argymhelliad 4:  Datblygu fframwaith hunanarfarnu cadarn ar gyfer gwaith gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, a chyflwyno targedau perfformiad priodol a heriol sy'n ysgogi gwelliant**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn Nhachwedd 2012, barnodd Estyn fod trefniadau'r awdurdod ar gyfer gwella ansawdd yn anfoddhaol.  Nid oedd ganddo broses hunanarfarnu drylwyr a pharhaus ar waith ar gyfer ei wasanaethau addysg.  Felly, ni chafodd gwasanaethau addysg y gyfarwyddiaeth eu harfarnu'n ddigon da i helpu aelodau etholedig, gwasanaethau a rheolwyr i ysgogi gwelliant yn effeithiol.  Ni ddefnyddiwyd targedau perfformiad o hunanarfarnu effeithiol ac nid oeddent yn ddigon cywir i yrru gwelliant.

Ers yr arolygiad yn 2012, yn briodol, mae'r awdurdod wedi mabwysiadu dull corfforaethol i wella'r ffordd y mae'n cynnal hunanarfarnu.  Mae uwch aelodau a swyddogion wedi ymrwymo'n glir i ymgorffori'r trefniadau newydd ar draws holl wasanaethau'r awdurdod.  O ganlyniad, rhoddodd yr awdurdod flaenoriaeth i'r gwaith hwn a neilltuo'r adnoddau angenrheidiol ar ei gyfer.  Mae'r fframwaith canlyniadol wedi'i strwythuro'n addas o amgylch tystiolaeth ar sail arfarniadau o ddeilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth.  Mae hunanarfarnu ar draws y gwasanaeth addysg wedi'i ddatblygu'n dda erbyn hyn, mae'n cyd-fynd yn

ddefnyddiol â fframwaith Estyn ac yn cysylltu'n dda â Fframwaith Her Gwasanaeth Corfforaethol yr awdurdod.

Mae uwch swyddogion yr awdurdod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd hunanarfarnu, o ran cadw at y broses ac o ran sicrhau cywirdeb y wybodaeth a luniwyd. Mae'r prif swyddog addysg yn cyfarfod yn rheolaidd â phenaethiaid gwasanaeth perthnasol ac yn eu cefnogi'n effeithiol yn y broses hon. Mae ysgolion yn cyfrannu'n briodol at hunanarfarniad y gwasanaeth addysg trwy ystod dda o weithgorau a fforymau. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at adolygiadau o gytundebau lefel gwasanaeth perthnasol hefyd.

Mae Bwrdd Perfformiad o uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn herio adroddiad hunanarfarnu'r gwasanaeth addysg yn flynyddol. Mae'r bwrdd yn herio arfarniadau o berfformiad yn drylwyr ac yn sicrhau bod targedau uchelgeisiol addas yn cael eu gosod. Mae'r bwrdd yn adrodd yn ddefnyddiol ar ddeilliannau eu hadolygiad her wrth y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu, sy'n monitro'r gwelliant dilynol a chynlluniau gweithredu. Mae swyddogion allweddol o fewn y gyfarwyddiaeth yn briodol gyfrifol am weithredu, monitro ac arfarnu llwyddiant y cynlluniau hyn. Mae'r adroddiadau gwybodus ac amserol a ddarperir i'r pwyllgor craffu yn cyfrannu'n effeithiol at waith y pwyllgor.

O ganlyniad i'r prosesau gwell hyn, mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn arfarniad cywir a gonest o waith y gwasanaeth addysg. Mae'n helpu i sicrhau dealltwriaeth gorfforaethol gliriach o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y gwasanaeth addysg.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn y gwasanaethau addysg yn effeithiol o ran dwyn swyddogion i gyfrif yn erbyn y targedau cytûn. Mae'r targedau hyn yn cysylltu'n dda iawn â blaenoriaethau strategol ar draws y cyngor.

**Argymhelliad 5: Datblygu fframwaith craffu mwy trylwyr, a'i ategu gan ddadansoddi data, i herio'r gwasanaethau addysg**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn 2012, barnodd Estyn fod trefniadau craffu yn yr awdurdod yn anfoddhaol. Nid oedd swyddogion wedi darparu adroddiadau ar gyfer aelodau etholedig a oedd yn dadansoddi data perfformiad ysgolion yn ddigon manwl i nodi a mynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella. Felly, nid oedd y broses graffu wedi cael ei hysbysu'n dda am berfformiad addysg, ac roedd her wedi bod yn wan.

Er 2012, mae'r awdurdod wedi cynnal rhaglen addas i ddatblygu a gwella'i swyddogaeth graffu yn barhaus. Yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'i drefniadau craffu, sefydlodd y pwyllgor craffu ar ddysgu. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau craffu priodol ar ystod lawn y gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc gan un pwyllgor.

Cynhelir cyfarfodydd craffu bob pedair wythnos. Mae hyn yn galluogi iddo fod yn heriol â'i raglen waith, gyda ffocws gwell ar adrodd yn rheolaidd am berfformiad yr ysgol a disgyblion. Mae aelodau'r pwyllgor yn ymweld ag ysgolion er mwyn cael dealltwriaeth well o'r modd y mae eu hysgolion yn gweithio. Mae aelodau wedi cael

hyfforddiant penodol i'w helpu i ddehongli data yn gysylltiedig ag ysgolion a disgyblion yn well.  O ganlyniad, maent yn deall pa ddata y dylid ei ddarparu erbyn hyn, gallant ei ddadansoddi'n briodol a gallant herio swyddogion yn effeithiol. Cynhelir sesiynau briffio rheolaidd cyn ac ar ôl cyfarfodydd y pwyllgor, sy'n gwella'i effeithiolrwydd.

Mae gan y pwyllgor craffu raglen waith briodol a chynlluniedig sy'n cynnwys monitro cynlluniau gweithredu sy'n deillio o drefniadau hunanarfarnu'r gwasanaethau addysg yn drylwyr.  Mae wedi sefydlu rhaglen adrodd flynyddol briodol hefyd, sy'n cynnwys perfformiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol, ffigurau NACH, deilliannau arolygu a chategoreiddio ysgolion.  Mae'r pwyllgor craffu wedi cynnwys sesiynau defnyddiol yn ei raglen waith i herio perfformiad ysgolion unigol yn adeiladol.  Hyd yn hyn, mae holl ysgolion uwchradd yr awdurdod ac ystod dda o ysgolion cynradd wedi mynychu'r sesiynau pwyllgor hyn.  Mae cadeiryddion pwyllgorau craffu'r awdurdod yn ddefnyddiol yn mynychu sesiynau hunanarfarniadau herio gwasanaethau gan y Bwrdd Perfformiad ac mae hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o feysydd pryder.

Er 2012, mae ansawdd adroddiadau gan swyddogion i bwyllgorau craffu wedi gwella'n sylweddol.  Mae adroddiadau diweddar wedi cynnwys dadansoddiad da o ystod eang o ddata ac maent wedi cynnwys golwg gywir ar safonau o gymharu ag awdurdodau eraill ac ysgolion tebyg yng Nghymru.  Maent hefyd wedi cynnwys negeseuon clir am raddfa'r her sy'n wynebu'r awdurdod lleol a'i ysgolion.

Mae'r pwyllgor yn gweithio'n dda i herio a chefnogi'r gwasanaeth addysg a'i ysgolion. Mae'n dod yn gynyddol effeithiol yn dwyn aelodau, swyddogion ac ysgolion i gyfrif am godi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.  O ganlyniad, mae'r diwylliant her ac atebolrwydd yn datblygu'n dda.

**Argymhelliad 6:  Sicrhau bod data ar anghenion a chyrhaeddiad pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, a grwpiau sy'n agored i niwed, yn cael ei ddefnyddio ar lefel strategol er mwyn nodi materion a thueddiadau penodol sy'n llywio cynllunio gwasanaethau**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Er 2012, mae'r awdurdod wedi rhoi negeseuon clir a chyson i ysgolion am y cyfrifoldebau sydd ganddynt am ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r awdurdod wedi gweithio gydag awdurdod cyfagos i ddatblygu ei systemau a'i ddulliau o reoli data.  O ganlyniad, erbyn hyn, mae gan yr awdurdod system sy'n cadw data allweddol ar draws ystod o swyddogaethau gwasanaethau addysg, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol, presenoldeb, gwaharddiadau a derbyniadau i ysgolion.  O ganlyniad, mae'r arfer o rannu data rhwng adrannau o fewn addysg wedi gwella.  Mae'r awdurdod mewn sefyllfa gryfach i fonitro perfformiad, nodi tueddiadau a phennu blaenoriaethau addas ar gyfer gwella.  Mae'r rhain yn dechrau cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae'r awdurdod bellach yn casglu ystod o ddata perfformiad ar gyfer disgyblion ag ADY.  Caiff data ei gasglu ar lefel disgybl, ysgol ac awdurdod unigol.  Mae safonau wedi gwella ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o'r Cyfnod

Sylfaen i gyfnod allweddol 4. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyfradd y gwelliant yn gyflymach na Chymru. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn adrodd yn gyson ar berfformiad disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig ac nid yw ei ddadansoddiad o gynnydd disgyblion yn ôl anghenion addysgol arbennig wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r awdurdod wedi darparu arweiniad defnyddiol ynglŷn â'r camau y mae angen i ysgolion eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol eu disgyblion. Yn ychwanegol, maent yn rhoi syniad da ynghylch pryd y mae'n briodol cyfeirio am gymorth allanol.

Er 2012, mae canran y disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig wedi lleihau 12%. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, bu cynnydd o 68% yn nifer y disgyblion sydd ag anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio (ADHD) a chynnydd o 42% yn nifer y disgyblion sydd ag awtistiaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r awdurdod yn ystyried y newidiadau mewn data ADY i gynllunio'i ddarpariaeth. Mae'r awdurdod wedi datblygu achos busnes i adolygu ac ailfodelu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, ac mae wedi dechrau gwaith ar y rhan fwyaf o'r meysydd prosiect. Fodd bynnag, nid oes cynllun gwaith clir ar gyfer pob un o'r meysydd prosiect, nid oes graddfeydd amser wedi'u nodi ac mae'r goblygiadau o ran adnoddau yn aneglur.

Mae Ysgol Arbennig Greenfield yn rhannu ei gwybodaeth a'i harbenigedd mewn ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys y rhai sydd â darpariaeth yn seiliedig ar adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae ei gwaith yn ffocysedig a thargedig ac yn cynnwys datblygu gallu ysgolion mewn perthynas ag asesu anghenion disgyblion a rheoli ymddygiad disgyblion. Mae staff ysgolion prif ffrwd wedi ymweld ag Ysgol Greenfield ac wedi arsylwi strategaethau addysgu y gallant eu defnyddio yn eu lleoliadau eu hunain. Mae Greenfield, ar ran yr awdurdod, yn darparu gwasanaeth allymestyn ar gyfer awtistiaeth, ac mae'n arwain at roi'r model cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith. Mae hyn yn helpu ysgolion prif ffrwd i baratoi ar gyfer diwygio statudol anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ddiweddar, archwiliodd yr awdurdod ddarpariaeth lleferydd ac iaith ar draws ysgolion. Roedd hwn yn ddarn pwysig o waith gan ei fod yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr awdurdod a'r ysgolion fel ei gilydd. Er enghraifft, cydnabu fod oedi o ran iaith ymhlith plant cyn-ysgol yn cael ei nodi trwy offeryn asesu diagnostig defnyddiol. Cydnabu hefyd y byddai'r asesiad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer ysgolion, ond nid oes cyllid ar gael i roi hyn ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio dull systematig a strategol o arfarnu'r holl wasanaethau ADY y darperir ar eu cyfer, neu sy'n cael eu comisiynu gan yr awdurdod.

At ei gilydd, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyrhaeddiad, presenoldeb a deilliannau disgyblion ar y rhaglen addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) wedi gwella. Caiff yr holl ddisgyblion eu cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, mae gan ysgolion ddiddordeb gweithredol yn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn ac yn eu perfformiad gan eu bod wedi cael eu cynnwys yn nata perfformiad ysgolion.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i wella'r cwricwlwm a gynigir ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yng

nghyfnod allweddol 4, ac mae ffocws gwell erbyn hyn ar ddisgyblion yn dilyn cyrsiau sydd wedi'u hachredu i lefel 1 o leiaf.  Yn ychwanegol, pan fydd disgyblion yn ymuno â'r ddarpariaeth ym mlynyddoedd 10 neu 11, mae'r staff yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu parhau i ddilyn nifer o'u hopsiynau pwnc.  Mae pob un o'r disgyblion yn dilyn cwrs wedi'i achredu'n allanol mewn Saesneg a mathemateg.  Yn 2015, ni adawodd yr un disgybl heb gymhwyster achrededig, ac aeth pob un o'r disgyblion ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant.  Fodd bynnag, mae systemau i fonitro cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol o gymharu â lefel eu presenoldeb mewn ysgolion, a'r cyfraddau ailintegreiddio i ysgolion, yn anghyson.

Mae'r awdurdod yn trafod anghenion hyfforddi staff gyda phob un o'r ysgolion prif ffrwd yn flynyddol.  O ganlyniad, mae cydlynwyr ADY (CydADY) a staff cymorth yn cael hyfforddiant priodol.  Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae 35 o staff wedi cael eu hachredu â chymhwyster lefel 3 mewn agweddau ar ADY sy'n benodol i'w rôl, ac mae 17 o staff yn dilyn cymhwyster lefel 5 mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer cydlynwyr ADY.  Mae hyn yn sicrhau bod staff yn cael eu paratoi'n well i reoli ADY yn eu hysgolion.  Yn ychwanegol, mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant pwrpasol yn yr ysgol ar gyfer cydlynwyr ADY a benodwyd yn ddiweddar.  Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant ffurfiol ar gyfer tiwtoriaid sy'n addysgu'r disgyblion mwyaf bregus a heriol yn llai datblygedig.

**Argymhelliad 7:  Arfarnu effaith y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid er mwyn addasu'r ddarpariaeth ac ail-gydbwyso dyrannu adnoddau lle bo angen**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn yr arolygiad yn 2012, nodwyd nad oedd y trefniadau partneriaeth ar gyfer rheoli gwasanaethau cymorth ieuenctid ym Merthyr yn gwybod yn ddigon clir pa wasanaethau oedd ar gael yn yr ardal, p'un ai'r rhain oedd y rhai mwyaf priodol ar gyfer anghenion pobl ifanc ai peidio, neu'r gwahaniaeth yr oedd y gwasanaethau hyn yn ei wneud i fywydau pobl ifanc.

Ers hynny, mae'r awdurdod a'i bartneriaid wedi diwygio eu trefniadau partneriaeth a'r mecanweithiau trosfwaol ar gyfer rheoli, cydlynu ac adrodd am faterion gwasanaethau cymorth ieuenctid.  Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth bresennol ac anghenion pobl ifanc, ac ymwybyddiaeth well o effaith gwasanaethau cymorth.  Mae gweithio mewn partneriaeth yn well yn galluogi'r awdurdod i ddefnyddio dull mwy strategol wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Roedd sefydlu'r grŵp llywio gwasanaethau cymorth ieuenctid yn ffactor allweddol wrth yrru'r trefniadau partneriaeth newydd.  Llwyddodd y grŵp llywio i sicrhau gwybodaeth sylfaenol am wasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys gwybodaeth am ystod y ddarpariaeth sydd ar gael, lleoliad gwasanaethau, eu diben, y cwricwlwm a lefelau'r defnydd a wneir ohonynt gan bobl ifanc.

O'r wybodaeth a gasglwyd, mae'r grŵp llywio wedi llunio dadansoddiad anghenion cynhwysfawr sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Gwella Sengl trosfwaol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.  Fe wnaeth y grŵp llywio nodi bylchau yn y ddarpariaeth yn gyflym, a chanfod bod gan bobl ifanc wybodaeth gyfyngedig am yr hyn a oedd ar

gael ac nad oedd defnydd digonol yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth bresennol. Hefyd, dangosodd yr ymchwil nad oedd unrhyw ddarpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg ar gael. Yn ychwanegol, roedd y cyfle i bobl ifanc fanteisio ar wasanaethau cymorth iechyd meddwl yn wael, ac nid oedd llawer o bobl ifanc yn manteisio ar wasanaeth cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn yr ardal, os o gwbl. Cymerodd y grŵp llywio gamau priodol yn gyflym i roi camau ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Yn fwy diweddar, dadansoddwyd y ddarpariaeth ymhellach yn erbyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn wedi nodi bod angen mwy o ddarpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Mae'r awdurdod wedi adolygu'r gwasanaethau dan ei reolaeth hefyd, fel y gwasanaethau hynny a ariennir trwy Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf i wneud yn siŵr bod cynlluniau yn y meysydd hyn yn cael eu cysylltu'n dda â'r Cynllun Integredig Sengl. Mae hyn wedi arwain at weithio'n well ar draws gwasanaethau.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol trwy ei bartneriaeth â rhwydwaith darparwyr Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful. Mae hyn wedi galluogi dealltwriaeth well o ddarpariaeth yn y maes hwn, ac mae'n rhoi cyfleoedd gwell i weithwyr arweiniol fodloni anghenion pobl ifanc. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cyfathrebu ehangach â phobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol am ystod ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn.

Mae'r awdurdod yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc fynegi eu barn. Mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth â phobl ifanc i ddatblygu rhaglenni a mireinio prosesau cymorth sy'n ymateb i anghenion a materion cyfredol.

O ganlyniad i newidiadau i'r strwythur corfforaethol, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cyfeirio'i waith yn fwy llwyddiannus i fodloni blaenoriaethau strategol yr awdurdod. Mae defnydd gwell o ddata a chydlynu gwasanaethau yn well wedi helpu'r gwasanaeth ieuenctid i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ymgysylltu â dysgu a chynyddu eu cyfleoedd i gael swydd.

Mae ymdrech yr awdurdod i arfarnu gwasanaethau o ran gwerth am arian ac effaith ar ddeilliannau wedi darparu strwythur defnyddiol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid i asesu pa mor dda y maent yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc. Erbyn hyn, mae adroddiadau cynnydd yn cynnwys effaith benodol yn erbyn meincnodau cenedlaethol. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth well o lawer i'r awdurdod o effeithiolrwydd rhaglenni a gwasanaethau. Mae'r data yn dangos bod effaith gadarnhaol mewn llawer o feysydd, fel gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac yng nghanran y bobl ifanc sy'n ennill achrediadau cenedlaethol, sef 36%, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mewn rhai achosion, mae'r awdurdod wedi datgomisiynu gwaith lle nad oes unrhyw dystiolaeth o effaith, ac wedi lleihau dyblygu i greu gwasanaethau mwy effeithlon. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn dechrau defnyddio eu hasesiad, ynghyd â gwybodaeth o'i waith partneriaeth, arolygon a llais ieuenctid, i lywio ei waith yn y dyfodol a thargedu adnoddau'n fwy effeithiol.

**Argymhelliad 8: Datblygu a gweithredu systemau i farnu a yw mentrau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac yn cynnig gwerth da am arian**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr awdurdod systemau i farnu effaith mentrau a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, ac fe rwystrodd hyn allu'r awdurdod i gynllunio gwelliannau gwasanaeth effeithiol a gwneud arbedion effeithlonrwydd.

Yn dilyn yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi rhoi cyfres gynhwysfawr o systemau ar waith sydd wedi'u cynllunio i arfarnu effaith gwasanaethau a mentrau o ran deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr. Mae'r awdurdod yn defnyddio'r systemau hyn yn dda i farnu effaith gwario ar ddeilliannau ac ansawdd gwasanaethau. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod mewn sefyllfa well o lawer i wneud penderfyniadau am wariant sy'n cael eu cyfeirio'n effeithiol tuag at flaenoriaethau allweddol. Mae'r dull strategol a ddefnyddir ar gyfer cynllunio gwasanaethau hefyd wedi galluogi'r awdurdod i nodi arbedion effeithlonrwydd heb gael effaith negyddol ar effeithiolrwydd gwasanaethau.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth well o lawer o'r gwerth am arian a ddarperir gan ysgolion a gwasanaethau ieuenctid. Mae defnydd gwell o ddata ac olrhain perfformiad disgyblion wedi helpu ysgolion a gwasanaethau ieuenctid i osod targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer gwella ac olrhain deilliannau dysgwyr yn fwy rheolaidd a mwy trylwyr. Mae casglu a dadansoddi data yn galluogi'r awdurdod i fonitro mentrau ar draws yr awdurdod hefyd, fel y strategaeth medrau sylfaenol, i nodi'n fwy effeithiol ble mae gwariant yn aneffeithlon, ac ailgyfeirio cyllid lle bo'n briodol.

Mae'r awdurdod wedi defnyddio'r dull systematig hwn i arfarnu effaith gwaith y consortiwm rhanbarthol gyda'i ysgolion. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i gyfeirio gwasanaethau addysg y consortiwm at feysydd penodol i'w gwella yn fwy effeithlon, a dwyn y consortiwm i gyfrif am ansawdd ei waith yn fwy effeithiol.

Mae'r Fforwm Ysgolion yn darparu cyfle gwerthfawr iawn i gynnwys ei ysgolion yn uniongyrchol mewn gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid. Mae'r awdurdod yn defnyddio'r fforwm yn dda i adolygu'r gwerth am arian a ddarperir gan gyllid targedig. Mae'r fforwm wedi arfarnu ansawdd ac effaith cytundebau lefel gwasanaeth gydag ysgolion hefyd. Mae hyn wedi arwain at gost effeithiolrwydd gwell o ran cyflwyno gwasanaethau, ac arbedion ariannol i ysgolion a'r awdurdod.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau rheolaeth ariannol yn ei ysgolion. Mae swyddogion yn gweithio'n dda gyda phenaethiaid i ddatblygu eu cynllunio ariannol a rheoli risgiau ariannol yn briodol.

At ei gilydd, mae gwaith yr awdurdod gyda'i ysgolion a gwasanaethau ieuenctid yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer nodi'r mentrau mwyaf effeithlon ac effeithiol a defnyddio cyllid grant, a rhannu arfer dda o ran cefnogi dysgwyr i gyflawni deilliannau gwell.

**Y camau nesaf**

Yn gyffredinol, mae awdurdod lleol Merthyr wedi gwneud cynnydd cryf cyffredinol ers yr arolygiad yn 2012. Rhaid iddo sicrhau yn awr nad oes unrhyw oedi cyffredinol yn yr ymdrech i wella yn ei wasanaethau addysg.

Mae rhai meysydd pwysig sy'n cael eu cwmpasu yn ein hadroddiad y mae angen rhoi sylw penodol iddynt. Er enghraifft, mae angen gwella cyfraddau presenoldeb yn y sector cynradd ymhellach. Hefyd, dylai'r awdurdod barhau i ddatblygu'r meysydd hynny y mae wedi nodi bod angen eu gwella er mwyn bodloni anghenion pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau sy'n agored i niwed. Dylai sicrhau bod ganddo drefniadau effeithiol ar waith i fonitro a chynnal arfarniad systematig o'r holl wasanaethau ADY sy'n cael eu darparu ar gyfer yr awdurdod, neu'u comisiynu ganddo.

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac at Archwilydd Cyffredinol Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru